

Syniad ar gyfer Gweithgaredd – Sbwriel yn Diflannu



Parwch y sbwriel â'r amser cyn y bydd yn pydru. Isod, mae rhestr o'r mathau gwahanol o sbwriel a faint o amser sydd ei angen arny'n nhw i bydru. Mae'r gweithgaredd hwn yn gweithio'n dda os ydych yn argraffu lluniau neu'n gofyn i blant dynnu eu lluniau eu hunain o wahanol fathau o sbwriel a chydweithio i'w rhoi mewn trefn o'r amser byrraf i bydru i'r amser hiraf.

Yna bydd modd trafod pam y mae nifer o fathau'n cymryd hirach nag eraill a'r ffactorau eraill a fydd yn mesur faint y bydd yn cymryd e.e. y tywydd gan gynnwys tymheredd, lefelau ocsigen a'r ffaith y byddai nifer o ddeunyddiau yn pydru'n wahanol yn y môr ac ar dir sych.

I ddangos sut mae hyn yn gweithio mewn bywyd go iawn, beth am gynnal arbrawf? Bydd angen samplau arnoch o wahanol fathau o wastraff a allai droi'n sbwriel, trywel, potiau planhigion neu bridd a labeli. Mae'n bwysig defnyddio gwahanol fathau o sbwriel megis calon afal, pecyn creision, papur a gwydr. Claddwch y sbwriel mewn rhywfaint o bridd (yn yr awyr agored neu dan do trwy ddefnyddio potiau planhigion) gan gofio gosod label uwchben lleoliad pob darn.

Tua chwe mis yn hwyrach, cloddiwch o dan pob label. Beth welsoch chi?

Tywel Papur	2 - 4 wythnos	Esgidiau Lledr	25-40 o flynyddoedd
Bag papur	1 mis	Can Dur	50 o flynyddoedd
Papur newydd	1.5 mis	Pecyn Creision	75 o flynyddoedd
Calon Afal	2 mis	Gwadn Esgid Rwber	50 - 80 o flynyddoedd
Cardfwrdd	2 mis	Cynhwysion plastig	50 - 80 o flynyddoedd
Pren haenog	1-3mis	Can alwminiwm	200 - 500 o flynyddoedd
Croen Oren	6 mis	Poteli Plastig	450 o flynyddoedd
Croen Banana	2 flynedd	Cewynnau Tafladwy	550 o flynyddoedd
Hosan Gwl ân	1 - 5 mlynedd	Bagiau Plastig	200-1000 o flynyddoedd
Cartonau Llaeth	5 mlynedd	Cynhwysydd Ewyn Styro	More than 1 million o flynyddoedd
Balwnau	5 – 6 blynedd	Potel Gwydr	Undetermined
Stwmp sigarét	10 -12 o flynyddoedd	Gwm Cnoi	Never